Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Cylch Meithrin Porth**
**St. Paul's Church Hall**
**Birchgrove Street**
**Porth**
**CF42 6RL**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2015**

**gan**

**Mr Eifion R Morgan**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 16/04/2015**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Porth sydd wedi`i leoli mewn neuadd o fewn Eglwys St Paul mewn rhan breswyl o'r Porth yng Nghwm Rhondda. Mae'r lleoliad wedi defnyddio'r safle presennol ers 2002 ond yn bwridadu ei adael cyn bo hir. Mae`r plant sy'n mynychu'r lleoliad yn dod o'r ardal gyfagos sydd yn gymuned sy`n nodweddiadol o`r cymoedd. Mae wedi'i gofrestru gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) i ddarparu ar gyfer uchafswm o 24 o blant mewn unrhyw sesiwn ac mae`r plant yn cael eu derbyn o ddwy a hanner oed. Mae`r plant yn symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu haddysg yn dilyn eu penblwydd yn dair oed gan fynd i'r ysgol gynradd Gymraeg leol.

Ar hyn o bryd mae 24 o blant ar y gofrestr, mae saith ohonynt yn dair oed gyda thri yn cael eu hariannu gan ddarpariaeth addysgol blynyddoedd cynnar yr awdurdod lleol.

Daw'r plant o amrywiaeth eang o gefndiroedd teuluol. I`r rhan fwyaf Saesneg yw iaith y cartref ac mae gan ychydig un rhiant sy`n siarad Cymraeg. Daw ychydig iawn o gartrefi â`r Gymraeg fel iaith yr aelwyd.

Does dim un plentyn sy'n mynychu ar hyn o bryd sydd wedi cael ei nodi fel un sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, er bod y lleoliad wedi derbyn a gwneud trefniadau i ddarparu ar gyfer plant o'r fath yn y gorffennol. Nid oes unrhyw blentyn yn dod o gefndir ethnig.

Mae pedwar o staff parhaol. Mae'r arweinydd yn cael cefnogaeth gan ddirprwy arweinydd a dau gynorthwyydd. Yn ystod yr arolygiad, roedd dau o fyfyriwr ar leoliad.

Cafodd y lleoliad ei arolygu yn flaenorol gan AGGCC ym mis Ebrill 2013 ac yn Ionawr 2009 gan Estyn.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

***Prif arfarniad***

Mae perfformiad cyfredol y lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae`r holl blant yn gwneud cynnydd da yn unol â`u hoedran a`u gallu
- Mae`r holl blant yn caffael medrau llafar da yn y Gymraeg
- Mae`r plant yn derbyn gofal da ac yn hapus ac yn ddiogel yn y lleoliad
- Mae`r ymarferwyr yn cynllunio ystod eang o brofiadau dysgu cyffrous sy`n ysgogi ac yn herio`r plant
- Mae`r berthynas rhwng oedolion a phlant a rhwng plant yn dda iawn
- Mae`r lleoliad yn rhoi cefnogaeth effeithiol a gwerthfawr i`r plant sydd wedi`u nodi ag anghenion dysgu ychwanegol

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella`r lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae`r arweinydd yn frwdfrydig gyda gweledigaeth glir am ddyfodol y lleoliad
- Mae`r staff yn cyd-weithio`n dda fel tîm gyda disgwyliadau uchel sy`n arwain at safonau uchel o gyflawniad a lles
- Mae`r ymarferwyr yn mynychu cyrsiau hyfforddiant proffesiynol a lleoliadau eraill yn rheolaidd ac yn barod i roi cynnig ar ffyrdd newydd o weithio
- Mae`r lleoliad yn derbyn cefnogaeth werthfawr oddi wrth staff yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin
- Mae`r lleoliad yn hunanarfarnol ac mae hanes da o weithredu syniadau newydd

## Argymhellion

A1 Defnyddio canlyniadau asesu yn gyson wrth gynllunio i sicrhau bod y gweithgareddau`n cyfateb yn dda â gallu`r plant a`u cyrhaeddiad blaenorol

A2 Adolygu`r cwricwlwm sy`n cael ei ddysgu`n gyson er mwyn sicrhau darpariaeth dda ar draws pob maes dysgu

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i`r afael â`r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r holl blant yn gwneud cynnydd da yn ystod eu hamser yn y lleoliad. Mae llawer wedi'u cymell yn dda i ddysgu gan gymryd rhan mewn gweithgareddau am gyfnodau hir o amser. Mae`r plant yma`n dangos yn gyson bod ganddynt gof da o`u dysgu blaenorol, ac yn gallu lleisio eu barn yn nodi eu hoff bethau fel eu hoff ganeuon a rhigymau. Yn gyffredinol, mae`r holl blant yn cyflawni'n dda, yn enwedig yn eu caffaeliad o'r iaith Gymraeg.

Mae sgiliau llythrennedd y rhan fwyaf o`r plant yn datblygu'n dda. Mae llawer yn gwrando'n astud yn ystod amser cylch ac maen nhw`n awyddus i ateb cwestiynau. Mae gan bron pob un ddealltwriaeth ddatblygol o'r iaith Gymraeg ac yn gallu defnyddio geiriau unigol ac ymadroddion yn eu hymatebion. Mae gan y plant ddigon o eirfa Gymraeg i ddisgrifio'r tywydd, yn medru cyfrif yn Gymraeg ac adnabod ac enwi lliwiau sylfaenol. Mae ychydig o blant yn ateb mewn brawddegau llawn. Mae`r holl blant yn adnabod eu henw ar y bwrdd gofrestru ac mae ychydig yn cyfateb llythrennau i`w henw ac yn gallu ynganu llythyren gyntaf eu henw. Mae medrau darllen cynnar yn datblygu gyda llawer o blant yn dewis eu hoff lyfrau stori yn yr ardal ddarllen. Mae`r plant yn dal llyfrau yn briodol ac yn troi tudalennau yn rhesymegol. Mae llawer o blant hefyd yn datblygu medrau ysgrifennu sylfaenol ac yn deall swyddogaethau ysgrifennu.

Mae cymhwysedd yr holl blant yn yr iaith Gymraeg yn ddigon da i'w galluogi i barhau â'u haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae llawer o blant yn defnyddio rhif yn naturiol yn eu gweithgareddau dyddiol ac mae bron yr holl blant yn cyfrif ar y cof i 10. Mae llawer o blant, ar wahanol adegau, yn cyfrif, didoli a chyfateb gwrthrychau yn gywir. Mae gan lawer ohonynt eirfa fathemategol sy'n datblygu, fel "mawr" a "bach", "llawn" a "gwag". Ar y cyfan, fodd bynnag, nid yw cysyniad y plant o rif a rhifedd wedi`i ddatblygu mor dda â'u cymhwysedd mewn llythrennedd.

Mae llawer o blant yn defnyddio offer bach, fel pensiliau, brwsys paent a sialc gyda rheolaeth dda ac yn dangos lefel dda o gymhwysedd wrth ymgymryd â gweithgareddau corfforol fel reidio beic tair olwyn.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu`r plant (TGCh) yn datblygu'n dda. Gyda rhywfaint o gymorth, mae llawer yn medru symud eiconau ar sgrin. Mae ychydig o blant yn datblygu sgiliau i'w galluogi i ddechrau defnyddio teganau rhaglenadwy ac mae'r rhan fwyaf o blant yn gwbl gymwys wrth chwarae gyda theganau digidol.

Mae`r rhieni yn fodlon iawn â'r cynnydd mae eu plant yn ei wneud.

**Lles: Da**

Mae pob plentyn yn dod i mewn i'r lleoliad yn frwdfrydig ac yn amlwg yn edrych ymlaen yn gyffrous at weithgareddau`r bore. Maen nhw`n edrych ar y gweithgareddau sydd wedi eu gosod allan ar eu cyfer ac yn dewis pa rai sy`n eu diddori. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn ymgartrefu'n gyflym ac yn cael eu cymell i ddysgu`n dda. Mae llawer yn dangos lefelau uchel o fedru canolbwyntio a dyfalbarhau, fel wrth actio`u syniadau yn y gornel chwarae rôl neu edrych ar lyfrau.

Mae`r holl blant yn ymddwyn yn dda; maen nhw`n gwrtais ac yn foesgar i'w gilydd a gyda oedolion. Mae llawer o blant yn dangos anwyldeb tuag at ei gilydd wrth chwarae mewn parau a grwpiau bychain ac mae'r rhan fwyaf yn barod i rannu a chymryd eu tro. Mae gan y rhan fwyaf o blant agwedd ddymunol gan fynd i'r afael â phrofiadau newydd gyda hyder gan ddangos lefel gynyddol o hunan-hyder. Roedd nifer o blant yn hapus i siarad â'r arolygydd ac i egluro beth oeddent yn ei wneud.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae`r lleoliad yn cynllunio ystod eang o brofiadau dysgu cyffrous i'r plant sy'n llwyddo i`w diddori. Mae`r gweithgareddau yn brofiadau ysgogol ac yn rhoi cwricwlwm eang a chytbwys i`r plant sy'n cwmpasu`r chwe maes dysgu. Mae`r ymarferwyr yn cynllunio ar y cyd, gan wneud defnydd da o syniadau`r plant ac mae`r cynllunio`n ddigon hyblyg i gynnwys syniadau`r plant.

Mae`r profiadau dysgu wedi'u ffocysu'n dda ar alluogi pob plentyn i wneud cynnydd tuag at fodloni deilliannau'r Cyfnod Sylfaen. Mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n systematig ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau`r plant.

Mae`r ymarferwyr yn gweithio'n dda gyda'i gilydd fel tîm; maen nhw`n adnabod y plant yn dda, ac yn gyffredinol yn cynllunio tasgau priodol. Mae hyn yn arwain at ddatblygiad iaith arbennig o dda o ganlyniad i ddefnydd da o'r iaith gan y staff. Mae`r cynllunio ar gyfer darpariaeth barhaus ac estynedig yn llwyddo i gymell y plant ond nid yw bob amser yn cyfateb yn dda i allu'r plant. Nid yw`r plant, yn enwedig y plant hŷn, bob amser yn cael eu herio`n ddigonol na`u hannog i feddwl yn annibynnol.

Mae`r plant yn cael cyfleoedd effeithiol i ddatblygu eu sgiliau llythrennedd. Mae`r plant yn cael eu trochi yn yr iaith Gymraeg ac mae pob plentyn, i raddau amrywiol, yn defnyddio'r iaith – gydag ychydig iawn yn siaradwyr Cymraeg naturiol. Mae`r ymarferwyr yn sicrhau digon o gyfleoedd i blant ddatblygu ac ymestyn yr iaith trwy ddefnyddio holi a chanmoliaeth. Tanddatblygedig yw`r cynllunio i ddatblygu sgiliau rhifedd y plant yn llawn. Mae'r lleoliad yn cynllunio cyfleoedd da ar gyfer datblygu sgiliau TGCh y plant.

Mae'r ystafell ddysgu wedi ei gosod allan yn dda gydag ardaloedd o weithgareddau sy`n cyfateb yn dda i ofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd da i blant weithio'n annibynnol neu mewn grwpiau bach ac i wneud penderfyniadau am eu dysgu eu hunain. Maen nhw`n cael eu hannog i wneud dewisiadau ac mae hyn yn

llwyddo i ddatblygu eu sgiliau meddwl. Mae`r ardaloedd o weithgareddau yn darparu ystod dda o weithgareddau diddorol - mae rhai yn seiliedig ar syniadau`r plant. Mae un ardal yn seiliedig ar brofiad plentyn o welliannau cartref ei dadcu ac yn cynrychioli iard adeiladydd.

Mae`r cynllunio yn llwyddo i helpu plant ffurfio perthynas ac i ddangos parch a goddefgarwch tuag at eraill yn y grŵp. Mae llawer o blant yn hyderus ac yn barod i siarad â`r arolygydd. Maen nhw`n awyddus i ddangos yr hyn maen nhw wedi ei wneud ac yn hapus i ymgymryd â phrofiadau newydd. Mae`r ymarferwyr yn defnyddio'r amgylchedd helaeth tu fewn yn effeithiol i gynnwys, er enghraifft, cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau corfforol. Mae'r tu allan, er yn annigonol, yn cael ei ddefnyddio`n ddychmygus ac mae`r ymweliadau â'r ardal leol yn gwneud ychwanegiad gwerth chweil tuag at ddysgu`r plant. Yn yr amgylchedd trefol hwn, mae cynnwys diogelwch ar y ffyrdd yn ychwanegiad gwerthfawr at ddysgu`r plant.

Mae`r plant yn cael cyfleoedd rheolaidd a phriodol i ddysgu am ddiwylliant a thraddodiadau Cymru wrth iddynt dathlu dyddiau pwysig fel Dydd Gŵyl Dewi.

Mae`r plant yn cael cyfleoedd i ddysgu am bobl llai ffodus na nhw, er enghraifft, plant yn Affrica. Fodd bynnag, nid yw gwybodaeth y plant o amrywiaeth ddiwylliannol wedi`i datblygu`n ddigonol.

Mae'r lleoliad yn rhoi digon o brofiadau i blant ddeall pwysigrwydd ailgylchu a chynaliadwyedd. Mae bwydydd gwastraff yn cael eu casglu i'w hailgylchu.

**Addysgu: Da**

Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth drylwyr o ofynion y Cyfnod Sylfaen. Maen nhw`n frwdfrydig ac wedi`u hymrwymo'n gryf i'w rôl o sicrhau bod yr holl blant yn ddysgwyr gweithredol ac yn cyflawni eu llawn botensial. Mae'r staff yn gwerthfawrogi ac yn cefnogi`n llawn yr athroniaeth fod plant yn y lleoliad yn dysgu drwy chwarae.

Mae`r ymarferwyr yn llwyddo i greu amgylchedd dysgu cadarnhaol lle mae`r plant yn teimlo'n ddiogel gyda`r hunan-hyder i weithio'n annibynnol. Mae cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy`n cael eu dewis gan y plant a gweithgareddau sy`n cael eu harwain gan oedolion ac mae`r plant yn hyderus i roi cynnig ar brofiadau newydd.

Mae gan yr ymarferwyr ddisgwyliadau uchel o bob plentyn gan ddefnyddio cwestiynu yn dda i ymestyn dysgu'r plant, yn enwedig i ddatblygu eu sgiliau llafar. Yn gyffredinol, mae`r staff yn fodelau rôl iaith da ac mae hyn yn gwella sgiliau iaith y plant.

Mae gwaith tîm effeithiol a sesiynau sydd wedi`u trefnu'n dda yn sicrhau cyflymder da i weithgareddau`r bore sy`n sicrhau bod y plant yn cymryd rhan weithredol. Mae strategaethau ymddygiad cadarnhaol a'r defnydd da o ganmoliaeth yn llwyddo i sicrhau bod y plant yn aros ar dasg am gyfnodau sylweddol o amser.

Mae'r berthynas rhwng oedolion a phlant a rhwng plant yn gyson dda.

Mae`r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda iawn. Mae asesu arsylwadol rheolaidd gan weithwyr allweddol yn cael ei nodi ac yn ffurfio rhan o`r cofnodion asesu sy`n

cael eu casglu ar gyfer pob plentyn.  Mae hyn yn rhoi syniad clir o'u cynnydd ac maen nhw ar gael i rieni a'r ysgol gynradd.  Fodd bynnag, nid yw canlyniadau`r asesiadau yn cael eu defnyddio'n gyson i fod yn sail i'r broses o gynllunio profiadau dysgu fel bod y gweithgareddau yn cyfateb yn dda i allu`r plant a`u cyflawniad blaenorol.  Nid yw`r camau nesaf yn y dysgu ar gyfer plant unigol yn cael eu cynllunio`n ddigonol bob amser.  Mae`r rhieni hefyd yn gwerthfawrogi trafodaeth anffurfiol gyda'r staff ac maen nhw`n fodlon iawn ar y cynnydd mae eu plant yn ei wneud, yn enwedig wrth ddysgu'r iaith Gymraeg.  Mae`r rhieni yn gwerthfawrogi'r wybodaeth maen nhw`n ei derbyn, fel geiriau Cymraeg sy`n cael eu defnyddio.  Fodd bynnag, mae gan rieni wybodaeth gyfyngedig o`r hyn maen nhw`n gallu ei wneud i helpu eu plant i wella.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo iechyd a lles plant yn llwyddiannus.  Mae'r staff yn parchu`r plant fel unigolion ac yn sensitif i'w hanghenion.  Maen nhw`n croesawu`r plant wrth iddynt gyrraedd ac yn gofalu amdanynt a'u cefnogi drwy anogaeth a chanmoliaeth.  Mae`r trefniadau sefydlu a`r cyswllt dyddiol gyda rhieni a gofalwyr wedi'i sefydlu'n dda ac yn fuddiol ac yn cyfrannu'n sylweddol at ddatblygiad emosiynol a chymdeithasol y plant.  Ar y cyfan, mae`r berthynas rhwng staff, plant a rhieni yn dda ac o fudd i'r plant.  Mae`r gweithgareddau o ddydd i ddydd yn effeithiol o ran datblygu a chynnal syniadau`r plant o gadw'n iach ac mae hyn yn cynnwys byrbrydau iach, glanhau eu dannedd a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd.  Mae`r byrbrydau yn achlysuron cymdeithasol effeithiol iawn gan roi cyfrifoldeb i blant fel paratoi bwyd, helpu i ddosbarthu'r bwyd a chlirio i ffwrdd.  Mae`r plant hefyd yn sgwrsio yn ystod amser byrbryd ac yn dysgu i gymryd eu tro ac i beidio â rhuthro`n ormodol.

Mae gweithgareddau fel casglu gwastraff a bwydydd heb ei fwyta ar gyfer ailgylchu yn helpu`r plant i ddeall pwysigrwydd ailgylchu a chompostio gwastraff.  Mae dŵr glaw yn cael ei gasglu er mwyn rhoi i`r planhigion sy`n cael eu tyfu gan y plant.

Mae`r gweithgareddau a phrofiadau bob dydd yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i feithrin datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant.  Mae`r plant yn cael eu hannog i ofalu am a helpu ei gilydd, fel yn ystod ymweliadau.  Mae'r plant yn hapus yng nghwmni oedolion yn y lleoliad ac maen nhw`n barod i ofyn am gymorth yn ôl yr angen.  Mae'r staff yn fodelau rôl da ac mae`r plant yn dysgu parch, gonestrwydd a thegwch fel rhan annatod o fywydau bob dydd.  Mae'r lleoliad yn rhan weithredol o'r gymuned ac mae`r plant yn dod i ddeall y gwahanol rolau sydd gan bobl fel hyfforddwyr dawns, yr heddlu a hostesses awyr.

Mae'r lleoliad yn amgylchedd dysgu diogel.  Mae`r drysau yn cael eu cadw ar glo fel na all neb ddod i mewn neu adael yn ddirybudd.  Mae`r plant yn cael eu goruchwylio bob amser a byth heb oruchwyliaeth, ond yn cael digon o ryddid i ddewis gweithgareddau gwahanol ac i weithio'n annibynnol.  Mae darpariaeth y lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer nodi a chefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn rhagorol.  Mae'r polisi sy'n cael ei gytuno gan y Pwyllgor Rheoli yn gynhwysfawr ac mae`r gweithdrefnau wedi`u hen sefydlu.  Mae`r plant sy`n cael eu hamau o gael ADY yn cael eu hadnabod yn gynnar yn eu datblygiad ac mae`u

hanghenion penodol yn cael eu nodi. Mae'r plant hyn yn cael mynediad llawn i bob maes dysgu. Ar y cyd â staff arbenigol, mae gofynion penodol pob plentyn yn cael eu hadnabod ac mae cynlluniau addysg unigol yn cael eu llunio. Mae`r cynlluniau yn fanwl ac yn adnabod y camau nesaf yn nysgu'r plentyn. Mae cynlluniau o'r fath yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac mae rhieni yn cymryd rhan weithredol ym mhob cam. Mae hyn yn sicrhau bod anghenion penodol y plentyn yn cael eu diwallu. Mae aelod unigol o'r staff yn cymryd cyfrifoldeb penodol ac yn cefnogi'r plentyn. Mae cefnogaeth o'r fath yn diwallu anghenion amrywiol plant unigol, heb effaith niweidiol ar ehangder, cydbwysedd a pharhad yn y dysgu ar gyfer y plant. Mae cefnogaeth o'r fath wedi ei darparu ar gyfer plant sydd yn drwm eu clyw er enghraifft, ag eraill sydd â nam ar eu llefaru. Mae'r staff wedi derbyn yr hyfforddiant angenrheidiol fel rhan o'u datblygiad proffesiynol.

Agwedd dda a nodedig o'r gwaith yw bod plant ag ADY wedi'u hintegreiddio'n llawn ac yn gwneud cynnydd da ym mhob agwedd o`u dysgu. Mae`r rhieni yn siarad yn dda iawn am gefnogaeth o'r fath ac o`r cynnydd eithriadol o dda mae eu plentyn / plant wedi ei wneud.

Mae cofnodion gofalus yn cael eu cadw a mae gwybodaeth o'r fath yn mynd gyda'r plant i gam nesaf eu haddysg, yn ogystal â chyfathrebu ar lafar gyda staff y dosbarth meithrin.

Mae'r lleoliad yn cael ei gydnabod fel enghraifft o arfer dda.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol sy'n cynnig hawl gyfartal i ddysgu i bob plentyn. Mae gweithdrefnau da yn eu lle i annog plant i ddatblygu agweddau goddefgar ac mae hyn yn arwain at bawb yn gweithio'n dda gyda'i gilydd. Mae'r ethos cynnes a chyfeillgar sy`n amlwg yn y lleoliad yn hyrwyddo teimlad o les a pharch at wahaniaethau ac amrywiaeth.

Mae ymddygiad y plant yn cael ei reoli`n fedrus gan ddefnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol ac mae wedi dileu unrhyw ymddygiad gormesol. Mae`r rhieni yn llwyr gefnogi'r lleoliad ac maen nhw`n hapus â sut mae agweddau ac ymddygiad eu plant yn datblygu.

Mae'r lleoliad wedi'i staffio'n briodol gydag ymarferwyr profiadol gyda chymwysterau da a oedd, yn ystod yr arolygiad, yn cael eu cynorthwyo gan ddau o fyfyrwyr ar leoliad.

Mae`r adnoddau yn hygyrch i blant, o ansawdd da ac yn cyfateb yn dda i ofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac anghenion penodol y plant.

Mae'r leoliad yn ddiogel ac mewn cyflwr da. Mae`r arddangosfeydd deniadol ar y wal yn atgyfnerthu dysgu`r plant. Mae'r ddarpariaeth y tu allan yn fach ac yn annigonol. Fodd bynnag, mae'r staff yn gwneud y defnydd gorau posibl o'r awyr agored ac yn gwneud yn iawn am hyn drwy gynnig amrywiaeth o ymweliadau â`r ardal leol.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r arweinydd yn darparu gweledigaeth glir ar gyfer y lleoliad fel amgylchedd gofalgar, cefnogol i bob plentyn lle maen nhw`n cael eu hannog i gyflawni eu potensial llawn. Mae`r plant yn hapus ac yn awyddus i ddysgu ac maen nhw`n ennill cymhwysedd da yn yr iaith Gymraeg sy'n eu galluogi i ddilyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r staff yn cydweithio'n dda iawn fel tîm i sicrhau safonau uchel o ran lles a chyflawniad pob plentyn.

Mae gan y lleoliad ethos croesawgar lle mae pob plentyn yn cael eu gwerthfawrogi fel unigolion. Mae`r plant yn unigolion hyderus, yn gwneud penderfyniadau ac yn ymddwyn yn dda. Mae`r rhieni yn gwerthfawrogi`r lleoliad a'r profiadau mae eu plant yn eu cael.

Mae'r arweinydd yn frwdfrydig ac yn gwbl ymrwymedig i'r lleoliad. Mae hi wedi gweithio'n ddiflino i ddarparu'r ddarpariaeth orau posibl i blant ac, yn hyn, mae hi'n cael ei chefnogi'n dda gan ei dirprwy a'r staff. Trwy ymweliadau â lleoliadau eraill a gweithredu ar gyngor staff yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin mae hi wedi cychwyn gwelliannau gwerth chweil, fel ailddatblygu`r ardal ddarllen er budd y plant. Mae`r plant bellach yn defnyddio'r ardal yn rheolaidd ac mae hyn wedi gwella eu diddordeb mewn llyfrau.

Ar y cyfan, mae`r amgylchedd dysgu dan do yn ddeniadol gydag ardaloedd dysgu wedi`u gosod yn briodol i gwrdd ag anghenion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Mae'r amgylchedd awyr agored yn annigonol ac nid oes potensial ar gyfer gwella. Mae'r arweinydd wedi ymweld â lleoliadau eraill i ganfod yr hyn y gellir ei gyflawni i wella addysg tu allan ac mae hi wedi rhoi ar waith rhai ymweliadau defnyddiol, gan gynnwys tynnu sylw at ddiogelwch ar y ffyrdd i blant. Mae ymweliadau lleol, fel ymweld â`r siopau a'r parc yn ymdrechion da i wneud yn iawn am y cyfleusterau awyr agored gwael.

Mae`r plant yn cael eu hasesu`n rheolaidd ac mae'r wybodaeth sy`n cael ei darparu ar gyfer yr ysgol leol yn fuddiol iawn ac yn cael ei gwerthfawrogi. Mae rolau gweithiwr allweddol hefyd wedi sicrhau bod y staff yn wybodus o gynnydd plant.

Mae prosesau priodol ar waith i reoli perfformiad yr holl staff. Mae hyn wedi galluogi bod anghenion staff yn cael eu nodi a`u datrys trwy fynychu cyrsiau datblygiad proffesiynol. Mae`r cyrsiau, fel y rhai sydd wedi`u cynlunio ar gyfer staff gyda chyfrifoldebau penodol, fel goruchwylio plant ag anghenion dysgu ychwanegol, wedi bod yn arbennig o fuddiol ac mae'r gefnogaeth sy`n cael ei darparu ar gyfer plant o'r fath wedi golygu bod gwelliant yn eu medrau iaith.

Mae'r arweinydd yn gweithio'n dda iawn gyda'r pwyllgor rheoli sy'n cael eu hysbysu'n dda am gynnydd y lleoliad a'r meysydd i'w datblygu.

Mae'r lleoliad yn wyliadwrus wrth weithredu'r blaenoriaethau cenedlaethol a rhai yr awdurdod lleol, fel datblygu llythrennedd, annog bwyta'n iach a hylendid deintyddol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr arweinydd wybodaeth drylwyr am berfformiad y lleoliad a dealltwriaeth dda o'r broses hunanarfarnu. Mae'r ddogfen hunanarfarnu yn asesiad manwl sydd wedi ei llunio'n dda gan nodi cryfderau'r lleoliad a'r meysydd i'w datblygu. Mae'r holl staff a`r staff ymgynghorol wedi bod yn rhan o'i chynhyrchiad ac mae'n canolbwyntio'n gadarn ar wella darpariaeth lle bo hynny'n bosibl gyda`r canlyniad wedi hynny o godi safonau a lles plant. Mae'r lleoliad wedi ymateb yn dda i argymhellion yr adroddiad arolygu blaenorol.

Mae'r staff yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod darpariaeth y lleoliad a chyflawniad a chynnydd y plant. Maen nhw`n cymryd rhan weithredol wrth fonitro'r ddarpariaeth, cyflawniad y plant a nodi lle mae`n bosib wneud gwelliannau.

Mae targedau ar gyfer datblygiad yn realistig ac yn gyraeddadwy ac yn cael eu cyfeirio yn gadarn at wella cyflawniad a lles plant. Mae amserlen addas, staff sy'n gyfrifol, cost a meini prawf llwyddiant wedi cael eu nodi.

Mae'r lleoliad yn cydweithio'n agos iawn gyda Mudiad Meithrin ac athrawes gefnogi`r awdurdod lleol sy'n darparu`r lleoliad â chyngor ac awgrymiadau da. Mae hyn wedi arwain at y staff yn ymweld â lleoliadau eraill; staff yn ymweld a'r staff yn mynychu cyrsiau hyfforddi proffesiynol perthnasol. Y canlyniad yw bod plant yn elwa o'r hyfforddiant a`r cyngor mae`r staff yn eu derbyn.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan y lleoliad ystod gwerth chweil a buddiol o bartneriaid strategol sy'n cyfrannu'n dda at ymestyn y ddarpariaeth a chodi safonau`r plant.

Mae dysgu a lles plant yn cael eu gwella`n sylweddol trwy gydweithrediad agos rhwng y lleoliad a'r rhieni a gofalwyr. Mae'r rhieni yn ymwybodol o rai o'r eirfa pwysig mae eu plant yn dysgu ac mae hyn yn helpu gyda datblygiad iaith. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi cael ei ymestyn yn ddigonol i feysydd eraill o ddysgu, fel rhifedd. Mae'r lleoliad hefyd yn cydweithio'n effeithiol gyda rhieni ar faterion yn ymwneud ag ymddygiad gyda chanlyniadau da. Mae`r rhieni hefyd yn gweithio'n agos gyda'r lleoliad er mwyn hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae perthynas fuddiol iawn gyda'r Mudiad Meithrin ac athrawes gefnogol yr awdurdod lleol. Mae'r bartneriaeth hon wedi llwyddo i rhoi canllawiau ar ddatblygu a chefnogi sgiliau`r ymarferydd sydd wedi arwain at godi safonau`r plant. Mae hyn hefyd wedi rhoi cyngor defnyddiol sy'n cael effaith gadarnhaol ar weithdrefnau hunanarfarnu'r lleoliad.

Mae'r bartneriaeth gyda'r ysgol gynradd leol wedi'i sefydlu'n dda ac yn werthfawr iawn drwy gyfarwyddo`r plant â`r ysgol ac athrawes y dosbarth derbyn. Erbyn iddynt adael, mae`r plant wedi`u paratoi'n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg. Mae hyn wedi bod yn effeithiol iawn lle mae gan y plant anghenion dysgu ychwanegol.

Er fod y gymuned leol, i raddau helaeth, yn amgylchedd trefol, mae`n cael ei defnyddio'n dda ac yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at les plant a`u gwybodaeth am bobl sy'n eu helpu.

Mae gan y lleoliad drefniadau priodol gydag asiantaethau arbenigol lleol. Mae hyn wedi bod yn werthfawr iawn gyda`r plant sydd ag ADY.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r arweinydd yn rheoli`r holl adnoddau yn effeithlon. Mae'r staff yn meddu ar gymwysterau a phrofiad addas; mae eu rolau wedi'u diffinio'n glir ac maen nhw`n gweithio gyda'i gilydd yn dda fel tîm. Mae gwerthuso staff yn effeithiol o ran nodi anghenion hyfforddi. Mae hon yn gymuned ddysgu sydd wedi`i hen sefydlu. Mae`r staff wedi cymryd rhan mewn cyrsiau datblygiad proffesiynol gwerth chweil ac mae'r rhain wedi cael effaith dda ar y safonau sy`n cael eu cyflawni gan y plant. Mae`r staff yn myfyrio ar eu harfer eu hunain, yn gwneud y defnydd gorau o'u sgiliau a'u harbenigedd ac yn rhannu arfer dda gyda lleoliadau eraill.

Mae`r cyllid yn cael ei ddyrannu'n briodol yn unol â blaenoriaethau sy`n cael eu sefydlu. Mae gan y lleoliad adnoddau addas i gwrdd ag anghenion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Mae`r adnoddau o ansawdd da ac yn hygyrch i`r plant.

Mae'r Pwyllgor Rheoli yn goruchwylio gwariant ac yn ei werthuso o ran yr effaith ar gyflawniad a lles plant.

O ystyried ansawdd yr addysgu, y profiadau dysgu a'r gofal a'r arweiniad mae`r plant yn eu derbyn, mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

# Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

**Yr  arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Mr Eifion R Morgan | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |